

Ty'r Cyffredin
Llundain
SW1A 0AA

10 Hydref 2017

Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Annwyl Aelod Seneddol,

Rwy'n ysgrifennu i ofyn am eich cefnogaeth i'r newidiadau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) y credwn ni, Pwyllgor Materion Allanol y Cynulliad, sy'n angenrheidiol.

Nodir y newidiadau hyn fel chwe amcan. Dyma amcanion pwyllgor trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn fyr, y Pwyllgor Materion Allanol yw Pwyllgor Brexit y Cynulliad. Fe'i sefydlwyd gan y Cynulliad i ystyried y goblygiadau i Gymru o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a diogelu buddiannau Cymru yn y broses ymadael a gwneud trefniadau ar gyfer y cyfnod ar ôl gadael.

Mae'r amcanion yn seiliedig ar dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a gafwyd gan ystod eang o randdeiliaid ac maent wedi elwa o fewnbwn arbenigwyr cyfansoddiadol a chyfreithiol ledled y Deyrnas Unedig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym ym mis Mehefin 2017 ar y Papur Gwyn sy'n gysylltiedig â'r [Bil Ymadael: Papur Gwyn y Bil Diddymu Mawr Y goblygiadau i Gymru.](#)



Cyn nodi ein hamcanion, hoffwn bwysleisio eto nad ydym, mewn unrhyw ffordd, yn ceisio rhwystro'r DU rhag ymadael â'r UE. Fel y dywedasom yn ein hadroddiad ar y Papur Gwyn, rydym yn deall yr angen i gadw a throsi cyfraith yr UE a'i gwneud yn weithredadwy o'r diwrnod ymadael. Mae ein pryder yn ymwneud â'r ymdriniaeth o'r setliad datganoli a'r diffyg ymgysylltu â'r Cynulliad, drwy ei bwyllgorau, mewn perthynas â dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru a gwneud trefniadau craffu.

Mae gennym rôl ffurfiol ym mhroses y Cynulliad i ystyried a ddylid rhoi ei ganiatâd deddfwriaethol i'r Bil.

Bydd ymateb y Senedd i'r chwe amcan a nodir isod yn effeithio'n sylweddol o ran a ydym yn argymhell bod y Cynulliad yn rhoi ei ganiatâd ai peidio.

Ein chwe amcan yw:

1. Dileu cyfyngiadau Cymal 11 ar y setliad datganoli.
2. Sicrhau bod Gweinidogion Cymru a'r Cynulliad yn gyfrifol am gywiro pob agwedd ar gyfraith sy'n deillio o'r UE mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig.
3. Sicrhau cyfyngiadau llym i'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru o dan y Bil a'u bod yn llawer mwy tynn na'r rhai a nodir yn y Bil ar hyn o bryd.
4. Atal Gweinidogion y DU rhag diwygio agweddau ar gyfraith sy'n deillio o'r UE sy'n effeithio ar Gymru oni bai ei bod wedi ei neilltuo.
5. Atal Gweinidogion y DU neu Weinidogion Cymru rhag diwygio Deddf Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio pwerau dirprwyedig.
6. Sicrhau y gall y Cynulliad osod ei drefniadau craffu ei hun.


Mae papur ynghlwm wrth y llythyr hwn sy'n esbonio pob un o'r amcanion hyn a'r cynigion ynghylch sut y gellir eu cyflawni.



Lle mae gwelliannau eisoes wedi'u hawgrymu neu wedi eu cyflwyno gan Aelodau Seneddol y credwn y gallent gyflawni ein hamcanion, rydym wedi nodi hyn yn hytrach nag awgrymu gwelliannau ein hunain. Lle nad oes unrhyw welliannau o'r fath yn bodoli, rydym wedi awgrymu gwelliannau y gobeithiwn y byddwch yn ystyried eu cyflwyno. Rydym yn ymwybodol y bydd gwelliannau pellach yn debygol o gael eu cyflwyno, gan gynnwys gwelliannau gan Lywodraeth y DU. Byddwn yn ystyried y rhain ar ôl iddynt gael eu cyflwyno a gobeithio y gallent gyfrannu at gyflawni ein hamcanion.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os hoffech drafod yr amcanion hyn yn fwy manwl, cysylltwch â mi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style with a large initial 'D' and 'R'.

David Rees AC, Cadeirydd Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

